# DINAS A SIR ABERTAWE

## COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR CYNGHORI'R CABINET – DATBLYGU

## A GYNHALIWYD YN YSTAFELL BWYLLGOR 5, NEUADD Y DDINAS, ABERTAWE DYDD MERCHER, 18 IONAWR 2017 AM 3.00 PM

**YN BRESENNOL**: Y Cynghorydd P Downing (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| C Anderson | C R Doyle | P Lloyd |
| P M Matthews | P B Smith | T M White |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Martin Bignell | Rheolwr yr Uned Gwasanaethau Coed |
| Allison Lowe | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd |
| Lisa Wells | Rheolwr Canol y Ddinas |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): C Thomas

54 **DATGELIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL A RHAGFARNOL.**

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

55 **COFNODION.**

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo a llofnodi cofnodion cyfarfod Pwyllgor Cynghori'r Cabinet ar Ddatblygu a gynhaliwyd ar 21 Rhagfyr 2016 fel cofnod cywir.

56 **MARCHNAD ABERTAWE. (LLAFAR)**

Cyflwynodd Rheolwr Canol y Ddinas y diweddaraf ar lafar ynglŷn â Marchnad Abertawe.

Yn unol â'r cais, darparodd ystadegau o ran data nifer yr ymwelwyr ar draws y DU. Cynhyrchwyd y data drwy 2 ffynhonnell ddata:

- Mynegai Marchnad y DU;
- Arolwg 'Missions for Market'

O ran ystadegau Mynegai Marchnad y DU ar gyfer y cyfnod Ionawr - Tachwedd 2016, roedd marchnadoedd ledled y wlad yn adrodd am ostyngiad o 3.5% yn nifer yr ymwelwyr. Roedd nifer yr ymwelwyr i Farchnad Abertawe yn unol â'r cyfartaledd cenedlaethol hwn.

Serch hynny, o ran ystadegau misol, a oedd yn dangos tuedd am i lawr barhaus, roedd Marchnad Abertawe’n adrodd am 2% yn fwy na'r cyfartaledd cenedlaethol.

O ran yr arolwg ‘Missions for Markets’, o'r 310 o gyfranogwyr roedd 43% yn adrodd am ostyngiad yn nifer yr ymwelwyr. Roedd hyn yn unol ag ystadegau Marchnad Abertawe.

O ran incwm, roedd 45% yn dangos bod gwarged (incwm) ganddynt. Eto, roedd hyn yn unol ag ystadegau Marchnad Abertawe.

Y cyfartaledd cenedlaethol o ran y gyfradd lenwi oedd 77%. Serch hynny, roedd y gyfradd ym Marchnad Abertawe’n 97%, ffigwr cadarnhaol iawn.

Er ei bod yn ymddangos yn genedlaethol fod yna duedd gostyngol o ran nifer yr ymwelwyr â farchnadoedd, yr oedd yn ymddangos nad oedd Abertawe'n dioddef cymaint. Er hynny, rhaid ystyried sut i ymdrin â'r wybodaeth hon mewn modd cadarnhaol.

Gofynnodd y Cadeirydd beth y gellid ei wneud i wella nifer yr ymwelwyr â Marchnad Abertawe.

Dosbarthodd Reolwr Canol y Ddinas gopïau o brif gynllun drafft Marchnad Abertawe. Roedd yr adroddiad hwn yn ganlyniad ymchwil a’r nod o ddiffinio prif gynllun ar gyfer Marchnad Abertawe.. Ei fwriad oedd cyfeirio gwneud penderfyniadau yn y dyfodol am y farchnad, ond hefyd i weithio fel cyd-destun ar gyfer prosiectau datblygu arfaethedig eraill gerllaw’r adeilad.

Amlygodd materion a oedd yn cyfyngu Marchnad Abertawe ac amlinellodd y dylai'r prif gynllun ystyried Fframwaith Strategol Canol y Ddinas.

Roedd 3 phrif gategori wedi'u hamlinellu yn y broses datblygu dyluniadau, serch hynny, roedd yr awgrym ynghylch ail-agor Stryd Oren wedi'i ddiystyru ar yr adeg hon.

Gofynnodd yr aelodau amryw o gwestiynau ac ymatebodd y swyddog yn briodol.

I gloi nododd mai’r camau nesaf, os bwrir ymlaen â’r cynllun, fyddai, symud ymlaen â'r cysyniad dylunio amlinellol a gwerthusiad manylach o gostau, nodi ffynonellau cyllid mewnol ac allanol a holi'n fanwl ynghylch y camau adeiladu - a yw'n gweithio i ni? Byddai'n rhaid cynnal ymgynghoriad a datblygu cynllun cyfathrebu.

Diolchodd y Cadeirydd i’r swyddog am ei chyflwyniad manwl.

**PENDERFYNWYD**:

1) Nodi'r diweddariad;
2) Y dylai’r cadeirydd gysylltu â'r Aelod Cabinet perthnasol ynglŷn â'r sefyllfa gyllidebol a’r ffordd ymlaen.

57 **POLISI COED.**

Cyflwynodd Rheolwr yr Uned Gwasanaethau Coed y fersiwn ddrafft lawn gyntaf o'r Polisi Coed.

Amlinellodd fod angen fformatio pellach ar y ddogfen ac y byddai angen diwygio sawl rhan ar ôl cael trafodaethau â rhai adrannau eraill.

Roedd dryswch yn parhau o ran cyfrifoldebau ynglŷn â choed ar dir tai cyngor, ac a oedd unrhyw wybodaeth wedi'i chynnwys yng nghytundebau'r tenantiaid ynglŷn â'u cyfrifoldebau.

Rhoddodd y cadeirydd awgrymiadau ychwanegol i helpu i gryfhau'r polisi.

**PENDERFYNWYD** y dylid:

1) Nodi'r Polisi Coed diweddaraf;
2) Diwygio'r polisi a'i gyflwyno yn y cyfarfod nesaf.

58 **CYNLLUN GWAITH.**

Cyflwynodd y Cadeirydd y Cynllun Gwaith diwygiedig ar gyfer 2016-17.

**PENDERFYNWYD** y dylid**:**

1) Nodi'r Cynllun Gwaith diwygiedig;
2) Trefnu ymweliad safle â'r siop ailddefnyddio, ar gyfer aelodau Pwyllgor Cynghori'r Cabinet ar Ddatblygu, o fewn y mis nesaf

Daeth y cyfarfod I ben am 4.00 pm

**CADEIRYDD**